

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT

www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd

9 Ionawr 2022

Ystwyll I – Bedydd Crist

CYHOEDDIADAU'R SUL

GWASANAETHAU Y SUL NESAF

Gweinyddir y Cymun Bendigaid am 8.00am ac am 10.30am y Sul nesaf.

Os ydych yn bwriadu dod i un o'r gwasanaethau hyn, cofiwrch anfon e-bost at Marian Fairclough: faircloughmarian@gmail.com neu ffonio ar 029 2088 5151: **cyn 4.00pm dydd Sadwrn os gwelwch yn dda.**

NEWIDIADAU YN Y CYNFYNGIADAU

Gan fod Cymru yn parhau yn Lefel Rhybudd 2 yr ydym yn cadw'r cyfyngiadau canlynol:

1. **System unffordd** o amgylch yr eglwys (fel o'r blaen). Gofynnwn i bawb ddod i mewn trwy brif borth yr eglwys ac i fynd allan trwy'r neuadd.
2. **Cadw pellter** cymdeithasol o ddau fedr rhwng addolwyr yn yr eglwys os nad ydynt yn aelodau o'r un teulu. Felly, bydd y nifer o seddi a fydd ar gael yn gyfyngedig i 21 unwaith eto. **Gofynnwn i chi felly hysbysu** Marian o'ch bwriad o ddod i unrhyw un o'r gwasanaethau ar y Sul i sicrhau bod lle i chi.
3. **Diheintio dwylo** wrth ddod i mewn i'r eglwys a chyn gadael yr eglwys
4. **Gwisgo mwgwd** yn yr eglwys yn ôl gofynion y gyfraith, oni bai bod gennych reswm pam na allwch wneud hynny.
5. Caniateir canu emynau cynulleidfaol, ond byddwn yn cyfyngu'r rhain i ddau neu dri ar y mwyaf. Gwerthfawrogwn eich cydweithrediad wrth i ni geisio sicrhau diogelwch pob un ohonom.

DYDD RHODDION

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd mor hael i'n hymgyrch codi arian tuag at brosiect adnewyddu'r toiledau yn ystod mis Rhagfyr. Yr ydym wedi codi dros £10,700 sy'n golygu ein bod wedi cyrraedd y swm sy'n ein galluogi i fwrw ymlaen â'r gwaith ddechrau mis Chwefror. Os hoffai unrhyw un arall gyfrannu at y "Dydd Rhoddion" bydd y trysorydd yn hapus i dderbyn eich cyfraniad.

CÔR YR EGLWYS

Penderfynwyd peidio â chynnal ymarferion côr ar nos Fawrth tra mae'r cyfarwyddiadau i ni gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fod mewn grym.

RHESTR DARLLENWYR

Mae rota darllenwyr Ionawr yn awr i'w gweld yng nghefn yr eglwys. Yn anffodus, diflannodd y rhestr enwau a lofnodwyd gan yr unigolion oedd yn barod i ddarllen y llithoedd. Felly, os hoffech wneud hyn ac os nad yw eich enw ar rota'r mis hwn, a fydddech cystal ag arwyddo ar waelod y rota sydd yng nghefn yr eglwys, neu gael gair gyda Gwynn. Diolch y fawr.

CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

Cynhelir gwasanaeth dros Zoom o dan nawdd Cyngor Egwysi Cymraeg Caerdydd i nodi'r Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol nos Iau 13 Ionawr am 7.30pm. Os hoffech y manylion Zoom, cysylltwch â'r ficer os gwelwch yn dda.

COFFI A CHLONC

Cynhelir ein bore coffi a chlonc dros Zoom dydd Sadwrn 15 Ionawr rhwng 10.30am a chanol dydd. Os hoffech dderbyn y manylion Zoom, cysylltwch â'r Ficer os gwelwch yn dda.

TREFN GWASANAETHAU AR GYFER GWEDDILL MIS IONAWR

Dydd Sul 16 Ionawr

8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 23 Ionawr

10.30am Y Cymun Bendigaid
6.00pm Yr Hwyl Weddi a Phregeth

Dydd Sul 30 Ionawr

10.30am Y Foreol Weddi a Phregeth
6.00pm Y Cymun Bendigaid

YN YR EGLWYS:

Dydd Mawrth 11 Ionawr 2022

Dim Ymarfer Côr

Dydd Mercher 12 Ionawr 2022

10.30am - Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 16 Ionawr 2022

Ystwyll II

8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid

GWASANAETHAU HEDDIW: Ystwyll I – Bedydd Crist

Bydd linc i bodlediad y gwasanaeth boreol yn ymddangos gyda'r e-bost sy'n cynnwys y daflen hon. Mae ein gwasanaethau i'w cael ar wefan yr eglwys.

Darllendir podlediad o'n gwasanaeth o Naw Llith a Charolau am 6.00pm

YN EIN GWEDDIAU

Cofiw'n yn ein gweddïau y cleifion: Cathrin Brynach, John Hicks, Ann Wyn Jones, Nia Roberts, Gwen Thomas, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddiwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros David Fairclough, Teifion Griffiths a thros bawb y cofiw'n am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

ADDOLI AR YR AELWYD

Os oes gennych gopi o lyfr Gweddi yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y Foreol a'r Hwyrdd Weddi (glas tywyll 1984), mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaethau ynddo a'i ddarllen i chi eich hun yn dawel neu ar lafar, neu ym mha bynnag fodd sy'n gyffyrddus i chi.

Mae'r Salm a'r darlleniadau ar gyfer y Sul fel y canlyn:

Y Foreol Weddi:

Salm 29
Actau 8:14-17
Luc 3:15-17, 21-22

Yr Hwyrdd Weddi:

Salm 46, 47
Eseia 55:1-11
Rhufeiniaid 6:1-11

Mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaeth ar y daflen hon hefyd.

Trefn gwasanaeth syml ar gyfer y gwasanaeth boreol
Thema: Bedydd a'r Ysbryd Glân

**O'r fath gyfaill ydyw'r Iesu,
Ffrind ymhob ystorum gref;
O'r fath fraint yw mynd â'r cyfan
Yn ein gweddi ato ef.
O'r tangnefedd pur a gollwn,
O'r pryderon 'rym yn dwyn,
Am na cheisiwn fynd yn gyson
Ato ef i ddweud ein cwyn.**

**A oes gennym demtasiynau?
A oes gofid mewn un man?
Peidiwn byth â digalonni -
gwrendy Iesu weddi'r gwan.
Cyfaill yw sy'n dal yn ffyddlon,
Cydymdeimlo mae â'n llef,
Gŵyr yr Iesu am ein gwendid –
Awn â'r cwbl ato ef.**

**Pwy sy'n teimlo yn drwmlythog
O dan faich euogrwydd cas?
Iesu'n unig yw ein noddfa –
Awn â'n cri at orsedd gras.
A oes ffrindiau'n cefnu arnat?
Dwed dy gŵyn wrth Frenin hedd:
Yn ei freichiau cei dawelwch
A diddanwch yn ei wedd.
*Joseph Scriven cyf. Nantlais
Cff 345***

Daeth llais o'r nef: "Ti yw fy Mab, yr Anwylyd; ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu". Luc 3:22

Daethom ynghyd yn deulu Duw ym mhresenoldeb ein Tad, i roddi iddo foliant a diolch, i glywed a derbyn ei air, i gyflwyno iddo anghenion yr holl fyd ac i geisio ei ras, fel y gallwn, trwy ei Fab, Iesu Grist, ein rhoi ein hunain i'w wasanaeth.

Dyweddodd Iesu: "Y gorchymyn cyntaf yw, 'Gwranddo, O Israel, yr Arglwydd ein Duw yw'r unig Arglwydd, a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' Yr ail yw hwn, Câr dy gymydog fel ti dy hun'. Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain".

Cyffeswn ein pechodau wrth y Tad a cheisio ei faddeuant a'i dangnefedd.

**Hollalluog a thrugarog Dduw,
yr ydym wedi pechu yn dy erbyn
ar feddwl, gair a gweithred.
Nid ydym wedi dy garu â'n holl galon;
nac wedi caru eraill fel y mae Crist yn ein caru ni.**

**Y mae'n wir ddrwg gennym.
Yn dy drugaredd, maddau inni.
Cynorthwya ni i ddiwygio ein bywydau;
fel y byddwn yn ymhyfrydu yn dy ewyllys
ac yn rhodio yn dy ffyrdd,
er gogoniant i'th enw. Amen.**

Bydded i Dduw ein Tad,
a gymododd y byd ag ef ei hun
Trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
ac sy'n maddau pechodau pawb sy'n wir edifeiriol,

faddau i ni a'n gwared oddi wrth ein holl bechodau,
a rhoddi inni ras a nerth yr Ysbryd Glân. Amen.

Creodd Duw ni,
a'n galw wrth ein henw.

Ffurfiodd Duw ni,
a'n galw wrth ein henw.

Gwaredodd Duw ni,
a'n galw wrth ein henw.

Galwodd Duw ni wrth ein henw.
Peidiwch ag ofni.

Emyn
**Abba, fe'th addolwn,
ac o'th flaen ymgrymwn,
ti a garwn.**

**Iesu, fe'th addolwn,
ac o'th flaen ymgrymwn,
ti a garwn.**

**Ysbryd, fe'th addolwn,
Ac o'th flaen ymgrymwn,
ti a garwn.**

*Terrye Coelho
Cyf. Iddo Ef
Cff. 53*

Colect Ystwyll I – Bedydd Crist.

Dad tragwyddol,
a ddatguddiaist ym medydd Iesu
ei fod yn Fab i ti,
gan ei eneinio â'r Ysbryd Glân:
caniatâ i ni a anwyd drachefn o ddŵr a'r Ysbryd,
lawenhau i gael ein galw
yn blant i ti;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

Actau 8. 14-17

Pan glywodd yr apostolion yn Jerwsalem fod Samaria wedi derbyn Gair Duw, anfonasant atynt Pedr ac Ioan, ac wedi iddynt hwy ddod i lawr yno, gweddiasant drostynt ar iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân, oherwydd nid oedd eto wedi disgyn ar neb ohonynt, dim ond eu bod wedi eu bedyddio i enw yr Arglwydd Iesu. Yna rhoes Pedr ac Ioan eu dwylo arnynt, a derbyniasant yr Ysbryd Glân.

**Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni;
Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni:
plyg ni, trin ni, golch ni, cod ni;
Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni.**
*Daniel Iverson Cyf.
Iddo ef.*

Luc 3. 15-17, 21-22 (Dyfrig)

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Luc
Gogoniant i ti, O Arglwydd

Gan fod y bobl yn disgwyl, a phawb yn ystyried yn ei galon tybed ai Ioan oedd y Meseia, dywedodd ef wrth bawb: "Yr wyf fi yn eich bedyddio â dŵr; ond y mae un cryfach na mi yn dod. Nid wyf fi'n deilwng i ddatod carrai ei sandalau ef. Bydd ef yn eich bedyddio â'r Ysbryd Glân ac â tân. Y mae ei wyntyll yn barod yn ei law, i nithio'n lân yr hyn a ddyrnwyd, ac i gasglu'r grawn i'w ysgubor. Ond am yr us, bydd yn llosgi hwnnw â tân anniffoddadwy."

Pan oedd yr holl bobl yn cael eu bedyddio, yr oedd Iesu, ar ôl ei fedydd ef, yn gweddio. Agorwyd y nef, a disgynnodd yr Ysbryd Glân arno mewn ffurf gorfforol fel colomen; a daeth llais o'r nef: "Ti yw fy Mab, yr Anwylyd; ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu."

Dyma Efengyl yr Arglwydd.
Moliant i ti, O Grist.

**Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni;
Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni:
plyg ni, trin ni, golch ni, cod ni;
Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni.**
*Daniel Iverson Cyf.
Iddo ef.*

Y Bregeth

Agorwyd y nef, a disgynnodd yr Ysbryd Glân arno mewn ffurf gorfforol fel colomen; a daeth llais o'r nef: "Ti yw fy Mab, yr Anwylyd; ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu." Luc 3:21-22

Mae'n anodd credu bod pythefnos wedi mynd heibio ers i ni ddathlu'r Nadolig. Yn wir, erbyn heddiw mae'r Nadolig ond yn atgof i'r mwyfrif ohonom – digwyddiad yn y gorffennol. Mae'r addurniadau wedi'u tynnu lawr a'u rhoi i gadw am flwyddyn arall, ac ychydig sydd ar ôl i'n hatgoffa ni am wyl y geni. Efallai bod ambell mins pei heb ei fwyta, neu gacen Nadolig sydd ar ei hanner, ond dyna i gyd. Yn yr

eglwys, yr unig beth sydd ar ôl i'n hatgoffa ni o'r Nadolig yw'r preseb ac mae'r preseb yno o hyd oherwydd mai dim ond dydd lau diwethaf, y chweched o Ionawr, ar Wyl yr Ystwyll y cyrhaeddodd y doethion â'u hanrhegion gwerthfawr o aur, thus a myrr. Ar Wyl yr Ystwyll fe gofiwn am y cenedloedd yn dod ac yn cydnabod yr Iesu "y Duwdod yn y cnawd". Does dim oedi yn rhy hir yn y stabl, does dim aros yn rhy hir gyda'r plentyn Iesu; mae amser yn rhuthro ymlaen. Wedi'r cyfan yr ydym ar ddechrau blwyddyn newydd, a'n tueddiad erbyn hyn yw edrych ymlaen i'r dyfodol gyda'n haddunedau blwyddyn newydd yn ffres yn ein meddyliau yn barod ac yn benderfynol i wynebu beth bynnag a ddaw yn 2022.

A'r gwir yw dydi'r flwyddyn eglwysig ddim yn ein caniatáu ni i oedi yn rhy hir chwaith yn y stabl wedi'r cyfan, heddiw ar y Sul cyntaf wedi'r Ystwyll yr ydym yn neidio deng mlynedd ar hugain ym mywyd Iesu. Nid Iesu'r baban na Iesu'r plentyn yw ein testun y bore 'ma, ond Iesu y dyn yn sefyll ar lannau afon yr Iorddonen yn barod ac yn benderfynol i gychwyn ar ei weinidogaeth gyhoeddus a chyflawni gwaith ei dad nefol; y gwaith y daeth ef i'r byd i'w gyflawni.

Dechreuodd gweinidogaeth Iesu gyda'i fedydd yn anfon yr Iorddonen, ac mae'n ddechreuad sydd yn llawn drama. Yn gyntaf, y mae gennym Ioan Fedyddiwr, ac yntau yn gymeriad digon rhyfedd, yn rhyfedd yn ei olwg yn gwisgo ei ddillad o flew camel a'i ddeiet o fêl gwyllt a locustiaid a'i genadwri yn galw pobl i edifarhau a chael eu bedyddio fel arwydd gweladwy o edifeirwch eu calonnau. Yr oedd neges Ioan wedi taro rhyw dant â'r bobl, oherwydd yr oedd tyrfaoedd yn dod o bob haenen o gymdeithas i wrando arno a chael eu bedyddio ganddo. Yn ail, fe gawn y weithred o fedyddio ei hun, sy'n weithred llawn drama gyda'r pobl yn camu i'r afon ac yn cael eu llwyr ymdrochi yn y dŵr rhedegog – ac yn codi o'r dŵr yn bobl ar eu newydd wedd, wedi rhoi heibio eu hen ffordd o fyw i ymgymryd â ffordd newydd.

Fe gawn eiriau Ioan Fedyddiwr ei hun wrth sôn am y Meseia fel yr "un cryfach na mi yn dod. Nid wyf fi'n deilwng i ddatod carrai ei sandalau ef. Bydd ef yn eich bedyddio â'r Ysbryd Glân ac â thân". Yr oedd Ioan yn disgwyl pethau mawr gan y Meseia, un a fyddai'n nithio'n lân yr us o'r gwenith, ac yn casglu'r ffrwythau da i'r ysgubor. Yr oedd gan Ioan ddarlun weddol frawychus o waith y Meseia, un a fyddai'n dod i ddioli'r da oddi wrth y drwg. Yr oedd disgwyliadau a gobeithion Ioan Fedyddiwr a'r bobl o swydd a gwaith y Meseia, eneiog Duw, yn uchel iawn.

I mewn i'r olygfa hon fe welwn ni Iesu yn camu, yn ymuno â'r bobl gyffredin i gael ei fedyddio. Mae Luc wrth sôn am fedydd Iesu ychydig yn wahanol i weddill yr efengylau. Yn efengyl Mathew a Marc, cyn gynted ag y cododd Iesu o'r dŵr, fe agorodd y nefoedd, disgynnodd yr Ysbryd Glân arno fel colomen a daeth llais o'r nef yn datgan, "Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd, ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu". Ond mae Luc yn gwahanu y ddau ddiwyddiad. Meddai Luc wrthym, "yr oedd Iesu, ar ôl ei fedydd ef, yn gweddio, a thra'n gweddio yr agorodd y nef, a disgynnodd yr Ysbryd Glân arno a daeth llais o'r nef. Fel ymateb i weddi yr agorodd y nefoedd yn efengyl Luc. Pwy a wŷr beth oedd testun gweddi Iesu, efallai ei fod yn gobeithio am ryw arwydd i gadarnhau iddo ei hun mai Mab Duw ydoedd ac mae nawr oedd yr amser iawn i ddechrau ar ei weinidogaeth gyhoeddus. Beth bynnag oedd testun gweddi Iesu, yr oedd yr ateb a dderbyniodd mor gadarn a all cadarn fod.

'Agorwyd y nef' meddai Luc. Nid yn aml y mae dorau'r nef yn agor yn y Beibl. Y nef yw preswylfod Duw y creawdwr sydd y tu hwnt i gyrraedd unrhyw feidrol yn. Yno yn y nef y mae Duw'n preswyllo mewn sancteiddrwydd a goleuni anhygyrch. Ni allwn ni ddechrau dychmygu'r nef, y mae tu hwnt i'n dirnadaeth ni. Os cofiwch chi 'nôl i lyfr Genesis a stori Noa, pan berodd Duw i'r ddilyw ddod, oherwydd bod cymaint o lygredd a thrais ar y ddaear fe agorodd ffenestri'r nefoedd a bu iddi lawio ar y ddaear am ddeugain nydd. Ond yma ym medydd Iesu, pan agorwyd y nef, nid glaw a ddisgynnodd, nid barn Duw a ddaeth i'r byd fel yn nyddiau Noa fel mellt a tharanau, ond yr Ysbryd Glân, a hynny a'r "ffurf gorfforol" fel colomen. Ym medydd Iesu agorwyd y nef, a daeth cadarnhad a bendith ar Iesu. A dyma ni eto yn gweld rhywbeth hollol annisgwyl, sef yr Ysbryd Glân yn dod ar ffurf colomen. Ar ddydd y Pentecost, pan ddaeth yr Ysbryd Glân ar y disgyblion, fe ddaeth fel gwynt grymus a thafodau o dân. Ar ddydd y Pentecost fe welwn ni rym yr Ysbryd Glân ond nid felly yma ym medydd Iesu.

Mae'r golomen yn un o'r adar mwyaf addfwyn y gallwn ni eu dychmygu. Mae ei lliw, yn wyn i gyd, yn arwydd o burdeb a diniweidrwydd. Fel aderyn does dim sy'n fygythiol am golomen i gymharu, dywedwn, â'r eryr neu'r hebog. Yma, eto, fe welwn ni gysylltiad â stori Noa, oherwydd ar ôl y dilyw, a'r dyfroedd yn dechrau cilio, os cofiwch chi, fe anfonodd Noa y gigfran yn gyntaf i weld a oedd dyfroedd y dilyw wedi cilio digon iddo adael yr arch, ond daeth hwnnw yn ôl. Anfonodd wedyn golomen, a daeth honno yn ôl heb fawr o lwyddiant, ac ar ôl aros ychydig dyddiau eto, fe

anfonodd y golomen yr eilwaith, a'r tro hwn fe ddaeth hi yn ôl â deilen olewydd newydd ei thynnu yn ei phig, ac fe ddeallodd Noa bod y dilyw wedi treio oddi ar y ddaear. Felly, fe ddaeth y golomen yn arwydd o obaith a'r heddwch sydd rhwng Duw a'r ddynoliaeth. Felly, ym medydd Iesu, daeth yr Ysbryd Glân ar ffurf colomen, i ddangos nad i weinyddu barn y daeth Iesu, ond i ddod â gobaith, cymod a heddwch i'r ddynoliaeth yn ei pherthynas â Duw. Dyna oedd nod Iesu yn ei weinidogaeth ac ar y groes – dwyn gobaith, cymod a heddwch i'r ddynoliaeth trwy burdeb a diniweidrwydd ei fuchedd.

Ac yna yn olaf, fe ddaeth y llais o'r nef yn cyhoeddi, "Ti yw fy mab, yr Anwylyd, ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu". Ar ddechrau ei weinidogaeth gyhoeddus, fe welwn ni Dduw yn cadarnhau ei berthynas unigryw â Iesu, fel ei fab, ei anwylyd, yr un y mae'n ymhyfrydu ynddo. Yn ei fedydd fe gawn ni ddatguddiad clir o natur a pherson Iesu, fel Mab Duw, a ddaeth i'r byd er mwyn i ni gael dod yn blant Duw trwy ei waith cymodlon ar y groes. A dyna'r fraint sydd gennym ni, trwy ein bedydd, ein bod ninnau hefyd yn cael ein galw i fod yn feibion a merched Duw, pobl y mae Duw yn ymhyfrydu ynddynt, gyda thynnerwch yr Ysbryd Glân ar waith yn ein bywydau ni, yn ein tywys â gobaith i'r dyfodol. Amen.

CREDWN

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried
yn Nuw Dad, a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried
yn ei Fab Iesu Grist, a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried
yn ei Ysbryd Glân, sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw, Dad,
Mab ac Ysbryd Glân. Amen.**

Emyn

**Anadla, anadl Iôr,
Llanw fy mywyd i
Fel byddo 'nghariad i a'm gwaith
Yn un â'r eiddot ti.**

**Anadla, anadl Iôr,
Rho imi galon bur
A gwna f'ewyllys dan dy law
Yn gadarn fel y dur.**

**Anadla, anadl Iôr,
Meddianna fi yn lân
Nes gloywi fy naearol fryd
Â gwawl y dwyfol dân.**

**Anadla, anadl Iôr,
Nid ofnaf angau mwy,
Caf fyw'n dragwyddol gyda thi
Uwchlaw pob loes a chlwy'.**
*Edwin Hatch cyf, Alun Davies
Cff. 567*

Yr Ymbiliau

Yn ddiolchgar ein bod wedi ein galw i fod yn bobl i
Dduw ar yr adeg hon,
ac yn y lle hwn, gweddiwn dros anghenion a gofalon
ein heglwys,
ein cymunedau, ein gwlad a'n byd.

**Dyro dangnefedd, O Arglwydd,
I'r sawl a gred ynot ti;
Dyro, dyro dangnefedd, O Arglwydd,
Dyro dangnefedd.**

Gweddiwn dros Gristnogion yn y wlad hon ac ar draws
y byd;
dros y rhai sydd wedi ymgynnull i'th addoli heddiw yn
yr eglwys ac yn rhithiol,
a thros y rhai sy'n arwain ein heglwys...
Dyro i ni galonnau disgwylgar,
sy'n edrych am arwyddion o'th ysbryd Glân yn
gweithio yn ein plith.

**Dyro dangnefedd, O Arglwydd,
I'r sawl a gred ynot ti;
Dyro, dyro dangnefedd, O Arglwydd,
Dyro dangnefedd.**

Gweddiwn dros ein gwlad, dros ein dinas a'r
cymunedau ble rydym yn byw;
dros y rhai sy'n arwain ein gwlad, a'r rhai sydd yn ei
hamddiffyn,
dros y rhai sydd â gweledigaeth broffwydol
i weld sut all ein cymdeithas fod yn well.
Dyro i ni feddyliau all ddychmygu
teyrnas Dduw yn dod yn ein plith.

**Dyro dangnefedd, O Arglwydd,
I'r sawl a gred ynot ti;
Dyro, dyro dangnefedd, O Arglwydd,
Dyro dangnefedd.**

Gweddiwn dros ein byd, dwyrain a gorllewin, gogledd
a de; dros y rhai sy'n dyheu am heddwch,
sy'n rhyfela gyda'u cymdogion,

a dros y rhai sydd â'r grym i ddwyn heddwch i'r
cenhedloedd.

Dyro i ni glustiau i glywed cri'r gorthrymedig, a
chofiwn yn arbennig
heddiw bobl Affganistan a Kazakstan

**Dyro dangnefedd, O Arglwydd,
I'r sawl a gred ynot ti;
Dyro, dyro dangnefedd, O Arglwydd,
Dyro dangnefedd.**

Cofiwn am y rhai a aeth o'n blaenau
o'r amser hwn a'r lle hwn.
Gweddiwn dros, dros y galarus, a'r rhai sy'n wylo.
Dyro i ni ddwylo sy'n dwyn Iesu i fywydau
y rhai sydd mewn angen.

**Dyro dangnefedd, O Arglwydd,
I'r sawl a gred ynot ti;
Dyro, dyro dangnefedd, O Arglwydd,
Dyro dangnefedd.**

*Cymuned Taizé
Cyf. Mawl ac Addoliad
Cff 790*

Gweddiwn gyda'n gilydd.

**Nefol Dad,
diolchwn i ti am ein cartrefi a'n teuluoedd,
am fwyd a dillad
ac am bob hapusrwydd y gall rhieni a phlant ei
rannu.
Gofynnwn
am i'th gariad ein hamgylchynu,
a'th ofal ein hamddiffyn
ac am gael adnabod dy dangnefedd
bob amser.
Arglwydd yn dy drugaredd
derbyn y gweddiâu hyn;
er mwyn Dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn
hyderus:

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.**

Canys eiddot ti yw'r deyrnas,

**a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

Emyn

**Un cam bach ar hyd y byd yr af,
Ar y daith o hyd dy gwmni gaf;
A thrwy bob yfory ddaw,
Gad i minnau afael yn dy law.**

**Ac wrth fynd o ddoe i'r 'fory newydd draw,
Gad i minnau afael yn dy law.**

**Troi o gylch corneli'r byd yr wy',
Am y byd cael dysgu mwy a mwy;
Pob peth newydd welaf i,
Caf ei weled drwy dy lygaid di.**

**Wrth im gerdded heibio i'r gwych a'r gwael
Dangos imi fod ffordd dda i'w chael;
Ac os caf fy rhwystro'n llwyr
Rho im ffordd nad oes ond ti a'i gŵyr.**

**Dysg im garu pan fo'r byd yn gas,
Pan fo'r byd yn greulon rho im ras;
Boed y daith yn gân i gyd,
Cadw fi'n dy gwmni di o hyd.**

**Hŷn wyt, Arglwydd, na'r hen fyd mawr crwn,
lau wyt hefyd na'r diwrnod hwn;
Hen a newydd wyt ynghyd,
Rhodiad yn dy gwmni di o hyd.**
*Sydney Carter cyf. John Gwilym Jones
Cff 800.*

*Mae hawlfraint Y Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn yr
Eglwys yng Nghymru a phob gwasanaeth sydd ynddo
yn eiddo Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1984. Neu Y
Cymun Bendigaid 2004
Roots a Chaneuon Ffydd.
Hawlfraint Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1984
Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng
Nghymru Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng
Nghymru 2011.
Colectau a Gweddiâu Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr
Newydd a'r Colectau. Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr
yr Eglwys yng Nghymru 2002 Emynau – Caneuon
Ffydd, Emynau'r Llan*

GWEDDIAU'R SUL

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddio dros:

- ❖ Iglesia Anglicana de Chile
- ❖ Plwyf Llanilid gyda Phencoed a Heol-y-Cyw, y Parchedig Ian Hodges (Arweinydd), y Parchedig Glenda Oglesbee (Curad); Bill Nicholas (Darllenydd Lleyg)

GWYLIAU A DARLLENIADAU

Dydd Llun 10 Ionawr: William Laud (1645), Esgob

I Samuel 1:1-8; Salm 116; Marc 1:14-20

Gweddïwn dros: Esgobaeth Jaffna (Eglwys Unedig Eglwys De India

Ardal Gweinidogaeth Llynfi a Chwm Afan Uchaf, y Parchedig Martyn Evans (Arweinydd), Ceri Morgan (Cadeirydd Lleyg)

Dydd Mawrth 11 Ionawr: Rhys Pritchard (1644), Offeiriad a Bardd, William Williams (1791), Diacon a Bardd, Isaac Williams (1865), Offeiriad a Bardd

I Samuel 1:9-20; Marc 1:21-28

Gweddïwn dros: Esgobaeth Jalingo – Eglwys Nigeria (Talaith Jos)

Plwyf Glyncorrwg a Chwn Afan Uchaf, y Parchedig Beverley Reaney (Ficer)

Dydd Mercher 12 Ionawr:

I Samuel 3:1-10, 19-20; Salm 40; Marc 1:29-39

Gweddïwn dros: Esgobaeth Jamaica ac Ynysoedd Cayman, Eglwys Ynysoedd y Caribî

Cabidwl y Gadeirlan, y Tra Pharchedig Gerwyn Capon (Deon)

Dydd Iau 13 Ionawr: Ilar (368), Esgob

I Samuel 4:1-11; Salm 44; Marc 1:40 - diwedd

Gweddïwn dros: Esgobaeth Jebba – Eglwys Nigeria

Plwyf Llangynwyd gyda Maesteg, y Parchedig Martyn Evans (Ficer), y Parchedig Geraint John (Curad)

Dydd Gwener 14 Ionawr: Cyndeyrn (c603), Esgob

I Samuel 8:4-7; Salm 89:15-18; Marc 2:1-12

Gweddïwn dros: Esgobaeth Jerwsalem, Eglwys Esgobol Jerwsalem a'r Dwyrain Canol

Plwyf Troed Rhiw Garth, Ficer i'w benodi

Dydd Sadwrn 15 Ionawr:

I Samuel 9:1-4, 17-19, 10:1, Salm 21; Marc 2:13-17

Gweddïwn dros: Esgobaeth San Joaquin, Eglwys Esgobol (Talaith VIII)

Deoniaeth Cwm Cynon, y Deon Bro, y Parchedig Ganon Michael Jones